Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# YGGD Gwauncaegurwen
# Ffordd Newydd
# Gwauncaegurwen
# Rhydaman
# SA18 1UN

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd naturiol ddwyieithog yw Ysgol Gynradd Gymraeg Gwauncaegurwen sy'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot.

Mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal a wasanaethir ganddi fel un sydd yn gymysg o ran cefndir cymdeithasol.

Mae 138 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 20 o ddisgyblion meithrin yn rhan amser. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn amser llawn yn y Medi sy'n dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Yn dilyn cau ysgol gyfagos, derbyniwyd 10 o ddisgyblion ychwanegol i'r ysgol ym Medi 2011. O ganlyniad i hyn, ail strwythurwyd y dosbarthiadau gan greu dosbarth ychwanegol o fewn cyfnod allweddol 2.

Daw 46% o'r disgyblion o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu. Nid oes yna ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrifol ethnig ar hyn o bryd. Tua 22% o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae'r ffigur hwn ychydig yn is na'r cyfartaleddau sirol ac ychydig yn uwch na'r cenedlaethol. Mae gan 18% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, ac nid oes yr un disgybl ar ddatganiad.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gwauncaegurwen yn 2011-2012 yw £3,565. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Castell-nedd Port Talbot yw £21,718 a'r lleiafswm yw £2,648. Mae Ysgol Gwauncaegurwen yn safle 35 o'r 71 ysgol gynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor Y Pasg 2006. Penodwyd y Pennaeth presennol ym Medi 2005.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac yn cyflawni safonau da yn y medrau allweddol ar draws y cwricwlwm;
- addysgu o safon gyffredinol dda a chefnogaeth effeithiol y cymorthyddion dysgu;
- cynigir ystod eang o brofiadau sy'n atgyfnerthu ac ysgogi'r dysgu; a
- bod yna ethos gofalgar sy'n sicrhau fod bron bob disgybl yn mwynhau dysgu ac yn teimlo'n ddiogel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol.

Er bod:

- safon yr addysgu yn gyffredinol dda, a bod
- yr uwch dîm rheoli yn gweithio'n effeithiol fel tîm ac wedi creu systemau penodol ar gyfer codi safonau;

ar hyn o bryd;

- nid yw'r ysgol yn gweithio'n ddigon strategol ar gyfer codi safonau;
- nid oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud o dystiolaeth uniongyrchol i gynllunio ar gyfer gwella; ac
- nid yw'r holl staff yn sicr o'u rolau o fewn y broses.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen:

A1 gwella cyflawniad y disgyblion mwyaf galluog;

A2 codi canran presenoldeb y disgyblion;

A3 sicrhau cywirdeb mewn asesiadau diwedd cyfnod allweddol a chynnwys y disgyblion o fewn y broses asesu yn llawn;

A4 cryfhau'r gweithdrefnau arweinyddiaeth strategol er mwyn sicrhau ffocws ar godi safonau; a

A5 datblygu ymhellach rôl y staff a'r Llywodraethwyr yn y broses o hunanarfarnu ac o osod targedau heriol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Dengys canlyniadau asesiadau sylfaen y disgyblion ar fynediad i'r ysgol, fod gan y rhan fwyaf ohonynt lefel dda o allu yn y medrau sylfaenol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da drwy'r Cyfnod Sylfaen ym mhob un o'r meysydd dysgu. Mae'r disgyblion sydd yn ddi-Gymraeg ar fynediad i'r ysgol yn gwneud cynnydd da yn y Gymraeg mewn cyfnod byr o amser.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn y Gymraeg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 1 yn 2011 yn is na'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg o ran disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio rhad a chyfartaledd ysgolion y teulu. Mewn gwyddoniaeth mae'r ganran yn uwch na chyfartaledd ysgolion tebyg ac ysgolion y teulu. Mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg a mathemateg wedi bod yn gyson is na chyfartaledd ysgolion tebyg ac ysgolion y teulu dros gyfnod o bedair blynedd.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011 yn uwch na chyfartaledd ysgolion tebyg a'r teulu. Yn gyffredinol, gwelwyd peth cynnydd yn y ddwy iaith dros gyfnod o bedair blynedd. Bu canlyniadau gwyddoniaeth yn weddol wastad yn ystod y cyfnod hwn a rhan amlaf yn uwch na chyfartaledd ysgolion tebyg a'r teulu. Mae tueddiad ar i lawr yng nghanlyniadau mathemateg dros yr un cyfnod.

Mae canlyniadau lefel 3 a lefel 5 yr ysgol wedi bod yn gyson is na chyfartaledd canlyniadau ysgolion tebyg ac ysgolion y teulu.

Nid yw'r safonau a welir yn asesiadau'r athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol yn adlewyrchu'n llawn safonau rhai elfennau o'r gwaith sy'n cael eu harddangos yn yr ysgol ar hyn o bryd, yn arbennig mewn llafaredd.

Mae'r gwaith cyfredol yn llyfrau'r disgyblion yn dangos cynnydd amlwg mewn safonau medrau'n gyffredinol yn arbennig ar frig yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau i wahanol bwrpasau yn briodol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud, yn awyddus i gyfrannu i drafodaethau ac i ymateb i gwestiynu'r athrawon yn effeithiol. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn y blynyddoedd cynnar yn ynganu ac yn goslefu'n ddealladwy. Mae ganddynt amrediad eang o eirfa a ddefnyddiant gyda lefel dda o gywirdeb. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn gallu sgwrsio'n eglur a thrafodant brofiadau a digwyddiadau cyfarwydd yn hyderus ar lefel unigol ac fel aelodau o grŵp. Trwy gydol cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu ymateb i gyfraniadau disgyblion eraill yn synhwyrol. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad yn hyderus mewn amryw o gyd-destunau ac yn dangos gafael dda ar gystrawen naturiol yr iaith lafar.

Mae safon darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ac o fewn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2 yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn gyfarwydd ag ystod o strategaethau darllen ac yn gallu eu defnyddio i wneud synnwyr o brint. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae'r rhan fwyaf yn deall yr hyn y maent yn ei ddarllen gan fynegi barn a thrafod cynnwys llyfrau ar lefel syml. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen ystod eang o destunau gyda rhuglder ac yn gallu ymateb yn ystyrlon i'r cynnwys. Gallant ddewis a dethol yn effeithiol rhannau penodol o sgriptiau at eu defnydd o fewn eu gwaith.

Mae datblygiad ysgrifennu ar draws yr ysgol yn gyffredinol dda gyda mwyafrif o'r disgyblion yn cynhyrchu amrywiaeth briodol o waith ysgrifenedig. Nid ydynt pryn bynnag yn ysgrifennu yn ddigon estynedig a chreadigol ar draws yr ysgol ac nid yw nifer arwyddocaol o'r disgyblion mwyaf galluog bob amser yn cyflawni yn unol â'u gallu.

Mae'r disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim a disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol i'w hoed a'u gallu.

Er mai ail iaith yw'r Gymraeg i lawer o'r disgyblion maent oll yn ymdrin â'r iaith Gymraeg yn hyderus yn fuan iawn ar ôl dechrau yn yr ysgol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion gwybodaeth a dealltwriaeth briodol o hanes a diwylliant Cymru.

**Lles: Da**

Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac iach yn yr ysgol. Maent yn hapus ac yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau ymarfer corff a chwaraeon o fewn yr ysgol ac o fewn clybiau wedi oriau ysgol.

Mae'r disgyblion yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd priodol i leisio barn a mynegi pryder. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dweud eu bod yn cael eu trin gyda pharch ac yn medru troi at oedolion a ffrindiau am gymorth pan fo angen.

Mae presenoldeb yr ysgol ar gyfer y blynyddoedd diwethaf yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac wedi disgyn dros y ddwy flynedd ddiwethaf. O'i chymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol wedi bod yn y 25% isaf ers 2009.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda a dangosant barch a gofal at ei gilydd ac at oedolion. Maent bron bob un yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n gallu cydweithio'n effeithiol fel grwpiau. Dangosant fwynhad a balchder yn eu gwaith gan ddyfalbarhau ar eu tasgau am gyfnodau estynedig.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cwrdd yn rheolaidd ac yn gweithredu ffyrdd effeithiol o gaffael barn a sylwadau cyd-ddisgyblion. Maent yn falch o'u hymdrechion i godi arian er budd elusennau a phobl eraill megis ymateb i drychineb gwaith glo Pwll y Gleision.

Maent yn awyddus i gymryd rhan yn nigwyddiadau'r ysgol sy'n ymwneud â'r gymuned sy'n datblygu eu medrau cymdeithasol a bywyd yn effeithiol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol. Defnyddir themâu yn effeithiol i gyflwyno nifer o agweddau'r cwricwlwm. Mae ymweliadau addysgol a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Mae'r cynlluniau gwaith yn gynhwysfawr a manwl. Cynllunnir cyfleoedd priodol yn y mwyafrif o'r gwersi ar gyfer datblygu medrau ar draws y cwricwlwm. Rhoddir pwyslais priodol ar strategaethau ar gyfer datblygu darllen drwy'r ysgol sy'n cynnwys defnydd effeithiol o wirfoddolwyr yn wythnosol. Sicrheir ystod eang o gyfleoedd ar gyfer datblygu ysgrifennu, fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ymestyn safon gwaith ysgrifenedig y disgyblion mwyaf galluog.

Defnyddia'r ysgol strategaethau penodol ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar lafar o oed cynnar a gwna'r disgyblion gynnydd da mewn medrau dwyieithrwydd. Mae'r athrawon yn modelu iaith dda sy'n dylanwadu yn gadarnhaol ar iaith fyrlymus y disgyblion. Hyrwyddir yr ethos Gymreig ymhellach drwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol a chyfleoedd i ddysgu am hanes, diwylliant a thraddodiadau yr ardal a'r wlad.

Ceir darpariaeth effeithiol ar gyfer galluogi disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae gwaith y Cyngor Eco yn ychwanegu at ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd materion amgylcheddol.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu yn gyffredinol dda ar draws yr ysgol. Mae gan yr athrawon ac oedolion eraill wybodaeth bynciol briodol ac maent yn defnyddio amrywiaeth dda o ddulliau a gweithgareddau i ysbrydoli a herio'r disgyblion. Mae'r holl athrawon wedi sefydlu perthynas waith da iawn â'r disgyblion. Mae cydweithio effeithiol y staff addysgu a chynorthwyol yn cyfoethogi ac ychwanegu at y profiadau dysgu yn y dosbarthiadau.

Ble mae'r addysgu ar ei orau, ceir holi a chwestiynu synhwyrol sy'n ymestyn dealltwriaeth disgyblion. Mae'r oedolion yn fwriadol fwydo iaith yn gyson ac yn gwneud defnydd effeithiol o glod i feithrin hyder a balchder. Mae cyflymder bywiog i'r gwersi a disgwyliadau cyrhaeddiad uchel.

Lle nad yw'r addysgu cystal nid yw amseriad y gwersi yn ddigon cyflym na'r gweithgareddau yn ddigon heriol a gwahaniaethol ar gyfer anghenion disgyblion, yn arbennig y disgyblion mwyaf galluog.

Er bod yna agweddau cadarnhaol i gyfundrefnau asesu a monitro'r ysgol nid yw'r asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol bob amser yn adlewyrchu safonau gwaith disgyblion. Bernir fod safonau llafar y disgyblion yn arbennig yn llawer uwch na'r lefelau a ddynodwyd gan yr ysgol.

Mae'r disgyblion yn derbyn adborth effeithiol yn ystod gwersi. Serch hynny, nid yw sylwadau ysgrifenedig yr athrawon bob tro yn cymell y disgyblion i wella eu gwaith. Nid yw asesiadau yn cael eu defnyddio'n ddigon effeithiol i flaengynllunio ar gyfer anghenion pob carfan o ddisgyblion o fewn yr ysgol. Ceir rhai enghreifftiau o ddisgyblion yn hunanarfarnu eu gwaith ond at ei gilydd, nid yw'r disgyblion yn cael eu cynnwys digon yn y broses nac yn llawn ymwybodol o feini prawf llwyddiant.

Mae'r adroddiadau blynyddol ar gynnydd disgyblion yn fanwl ac yn rhoi darlun priodol o gyrhaeddiad a chynnydd disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn eu lle i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn gymuned hapus lle teimla'r disgyblion yn ddiogel. Mae'r ysgol yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn croesawu'r gymuned leol i ymuno â hi mewn digwyddiadau ar draws y flwyddyn sy'n cryfhau'r cyswllt a'r ymdeimlad o berthyn i ardal ymhlith y disgyblion. Mae'r sesiynau cydaddoli yn cyfrannu'n arwyddocaol at greu awyrgylch gweddigar, gofalgar ac ysbrydol. Caiff y disgyblion eu harwain yn y naws briodol i fyfyrio ar y syniadau a gyflwynwyd. Mae'r disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn ymgymryd â rôl fugeiliol i ofalu am y disgyblion iau. Mae'r cydweithio hwn yn effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad eu medrau personol a chymdeithasol.

Yn ddiweddar crëwyd gweithdrefnau i geisio ymateb i absenoldebau disgyblion ond nid yw hyn hyd yma wedi cael llawer o effaith.

Gwneir defnydd priodol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol yn cynnwys y gwasanaethau lles addysg, meddygol ac argyfwng.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisïau priodol ar gyfer diogelu.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a systemau effeithiol ar gyfer nodi a chefnogi disgyblion a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn bodloni gofynion statudol yn llawn. Darperir cynlluniau addysg unigol briodol ar gyfer y disgyblion a adolygir gyda'r disgyblion a'u rhieni yn dymhorol. Mae'r cynlluniau y rhan amlaf yn dylanwadu'n gadarnhaol ar flaengynllunio.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae yn yr ysgol gymuned ofalgar a diogel sy'n creu ethos cynhwysol. Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ac sy'n hybu cydraddoldeb. Sicrheir cyfleoedd i'r holl ddisgyblion fanteisio'n llawn ar bob agwedd o'r profiadau addysgol sy'n cael eu darparu.

Rheolir ymddygiad da'r plant drwy feithrin ethos hynod ofalgar a chadarnhaol. Mae bron bob un o'r disgyblion yn dangos parch tuag at ei gilydd.

Ceir defnydd effeithiol o dir ac adeilad yr ysgol gyda'r arddangosfeydd mewnol yn ysgogi'r dysgu. Mae'r adnoddau'n dwt a thaclus a chaiff y safle a'r adeilad eu cadw'n raenus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r uwch dîm rheoli newydd yn egnïol ac yn ymroddgar. Mae nifer o weithdrefnau da wedi eu rhoi ar waith yn ddiweddar i sicrhau prosesau gwell ar gyfer monitro safonau a chynnydd drwy'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r holl brosesau yn ddigon eglur i holl aelodau'r staff. Nid ydynt chwaith wedi cael cyfle i effeithio ar gyflawniad disgyblion.

Bellach mae rolau a chyfrifoldebau wedi eu rhannu'n effeithiol rhwng y staff, er nad oes digon o amser penodedig ar gyfer y tîm rheoli i gyflawni eu dyletswyddau yn llwyr bob amser. Mae gan bob aelod o'r staff ddisgrifiad swydd benodol sy'n eu gwneud yn ymwybodol o'u rôl o ran gweithredu cynlluniau'r ysgol. Serch hynny, nid yw pob un ohonynt ar hyn o bryd â digon o ddealltwriaeth o'r cynlluniau ysgol gyfan ar gyfer codi safonau.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae ganddynt wybodaeth dda o rediad dydd i ddydd yr ysgol. Maent yn defnyddio dadansoddiadau data'r ysgol i drafod perfformiad yr ysgol, er nad yw'r corff eto'n rhoi her ddigonol i'r ysgol ar sail data sy'n cymharu perfformiad ag ysgolion tebyg. Mae nifer o'r Llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac mae hyn yn cyfrannu'n briodol i'w dealltwriaeth o anghenion a'r heriau sy'n wynebu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw perthnasol i flaenoriaethau cenedlaethol yn gysylltiedig â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion drwy waith mewn menter ar y cyd â deg ysgol leol. Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llawn ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen sy'n effeithio'n bositif ar safonau a lles disgyblion.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r systemau ar gyfer hunanarfarnu wedi gwella yn ddiweddar. Erbyn hyn, mae'r prosesau yn defnyddio ystod o ffynonellau tystiolaeth addas, sy'n cynnwys archwilio samplau o waith ysgrifenedig disgyblion a siarad â'r dysgwyr. Ond nid oes defnydd digonol o arsylwadau gwersi ar hyn o bryd yn bwydo i drefniadau rheoli ansawdd yr ysgol. Hefyd, nid yw'r prosesau monitro ffurfiol wedi eu sefydlu'n llawn. Golyga hyn nad yw'r dystiolaeth sy'n bwydo'r adroddiad hunanarfarnu bob amser yn eglur ac nad oes cyfle i'r staff na'r llywodraethwyr ddylanwadu'n ddigonol ar gynnwys yr adroddiad.

Mae perthynas glir rhwng y cynllun datblygu cyfredol a'r adroddiad hunanarfarnu diweddaraf. Mae blaenoriaethau'r cynllun erbyn hyn wedi eu seilio ar arfarniad o'r cynllun blaenorol a'r blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o fewn y broses hunanarfarnu. Mae'r blaenoriaethau wedi eu costio'n briodol, y person â chyfrifoldeb wedi ei enwi, yr amser gweithredu wedi ei nodi ynghyd â'r meini prawf llwyddiant. Serch hynny, nid yw'r llywodraethwyr yn derbyn digon o wybodaeth ar hyn o bryd sy'n deillio o systemau hunanarfarnu'r ysgol i'w galluogi i chwarae rhan fwy gweithredol yn llunio'r cynllun datblygu ysgol a gosod cyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae trefniadau da ar waith ar gyfer datblygu'r staff yn broffesiynol. Mae nifer ohonynt yn manteisio ar gyfleoedd i fynychu cyrsiau sydd yn eu harfogi â medrau newydd i ddatblygu dulliau arloesol ar gyfer dysgu ac addysgu.

Mae yna esiamplau defnyddiol o'r ysgol yn dechrau cymryd rhan mewn cymunedau dysgu proffesiynol, megis eu menter fewnol sy'n dangos ymrwymiad i wella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaeth yr ysgol gyda'r rhieni yn dda ac mae'n cyfrannu'n effeithiol at y profiadau dysgu. Enghraifft dda o hyn yw gwaith y gwirfoddolwyr darllen sy'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i wrando ar ddisgyblion yn darllen. Mae cynlluniau trosglwyddo rhwng yr ysgol a'r ysgolion uwchradd yn galluogi disgyblion hŷn i gael eu paratoi'n briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn cael y cyfle i ymweld â'r ddwy ysgol uwchradd leol er mwyn medru gwneud y dewis ar gyfer eu dyfodol. Mae perthynas agos rhwng yr ysgol â gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol ac mae hyn yn cynnig cefnogaeth effeithiol yn yr ymdrech i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae'r disgyblion hefyd yn elwa o berthynas glos yr ysgol â'r gymuned leol gyda defnydd da yn cael ei wneud o fusnesau bach lleol megis y parlwr hufen iâ a'r Swyddfa Bost i hyrwyddo gwybodaeth y disgyblion o fyd menter a busnes. Mae'r ysgol hefyd yn manteisio ar adnoddau lleol i hyrwyddo addysg y disgyblion megis y llain astroturf.

Cefnoga'r ysgol elusennau amrywiol sy'n codi ymwybyddiaeth y disgyblion o anghenion eraill yn effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn cyfrannu rhan o'r cyllid yn effeithiol i ymuno ag ysgolion eraill er mwyn trefnu cynadleddau a hyfforddiant ar y cyd. Maent hefyd yn gweithio'n agos ag ysgolion eraill i gyd-safoni a chymedroli gwaith disgyblion sy'n arwain at ansawdd asesu gwell o fewn yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff cymwys i addysgu'r cwricwlwm yn briodol. Mae'r cymorthyddion a'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau cefnogaeth briodol i'r disgyblion. Mae amser cynllunio, paratoi ac asesu'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Yn ystod y sesiynau hyn defnyddir arbenigedd cymhorthyddion ac athrawon i addysgu meysydd penodol o'r cwricwlwm.

Mae buddsoddiad diweddar yn yr adeilad wedi sicrhau amgylchedd o safon uchel i'r disgyblion. Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau o safon da sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol yn ymwneud â baich gwaith athrawon.

Mae'r is-bwyllgor cyllid yn cwrdd yn rheolaidd ac yn ymateb yn briodol i ofynion y gyllideb. Maent yn delio â materion megis posibiliadau o ddiffyg yn y gyllideb ac amrywiadau mewn niferoedd disgyblion yn effeithiol.

Oherwydd y deilliannau a gyflawnir gan y disgyblion, ansawdd yr addysgu, safon y ddarpariaeth drwy'r ysgol gyfan a'r rheolaeth briodol o'r gyllideb, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 1 yn 2011 yn is na chyfartaledd ysgolion Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg. Er hyn mae'r ganran mewn darllen ac ysgrifennu yn uwch na chanran ysgolion tebyg. Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg yn uwch na chyfartaledd Cymru ond yn is na'r teulu o ysgolion. Mewn gwyddoniaeth, mae'r ganran yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r teulu.

Mae'r canlyniadau hyn yn gosod yr ysgol ymysg y 50% isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, o fewn Cymraeg a mathemateg ond yn yr 25% uchaf mewn gwyddoniaeth.

Mae'r ganran sy'n cyrraedd tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig (lefel 3 neu uwch) eleni yng nghyfnod allweddol 1 yn is na'r teulu ond yn uwch na chyfartaledd Cymru yn y Gymraeg. Mae canlyniadau lefel 3 yr ysgol mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn is na chyfartaledd y teulu ac ysgolion Cymru.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng canlyniadau'r bechgyn a'r merched.

O fewn y Gymraeg (lefel 2) gwelwyd tueddiad ychydig ar i fyny ers 2006-2007 er fod canlyniadau'r ysgol wedi bod yn gyffredinol is na teulu a Chymru a'r rhan amlaf yn y 50% isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Er fod y tueddiad yn gyffredinol ar i lawr mewn canlyniadau mathemateg mae'r cyfartaledd yn agos at ganlyniadau'r teulu a Chymru ers 2008-2009. Mae canlyniadau gwyddoniaeth (lefel 2) wedi bod yn weddol wastad ac yn gyson uwch na'r teulu a Chymru ers pedair blynedd. Mae canrannau'r ysgol ar lefel 3 ym mhob pwnc wedi bod yn gyson is na chyfartaledd teulu o ysgolion ac ysgolion Cymru dros bedair blynedd ac eithrio yn 2010-2011 pan welwyd canlyniadau tebyg i ysgolion Cymru mewn Cymraeg a mathemateg.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o fewn Y Gymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011 yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru ac yn uwch na chyfartaledd canrannau'r teulu o ysgolion tebyg. Mae canlyniadau mathemateg yn is na chyfartaledd Cymru a'r teulu o ysgolion.

Mae'r ysgol yn cymharu'n weddol ffafriol gydag ysgolion tebyg o feincnodi yn erbyn ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2010-2011 ac eithrio mewn mathemateg. Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf mewn gwyddoniaeth a'r 50% uchaf mewn Saesneg a Cymraeg. Mae canlyniad mathemateg o fewn y 50% isaf a'r dangosydd pwnc craidd o fewn y 25% isaf.

Mae'r ganran sy'n cyrraedd tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig yn 2010-2011 yng nghyfnod allweddol 2 yn is na'r teulu a Chymru yn y Gymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth ac yn uwch na Chymru a'r teulu mewn mathemateg.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng canlyniadau'r bechgyn a'r merched yn 2011.

Tros gyfnod o bedair blynedd, o fewn y Gymraeg (lefel 4) gwelwyd tueddiad ychydig ar i fyny er fod y canlyniadau yn gyffredinol is na'r teulu a Chymru a'r rhan amlaf yn yr 50% uchaf neu'r 50% isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn 2010-2011. Mae'r canlyniadau lefel 5 wedi bod yn gyson is na'r teulu a Chymru ers 2006 a'r rhan amlaf yn y 50% neu'r 25% isaf.

O fewn y Saesneg (lefel 4) gwelwyd canlyniadau a thueddiad ar i fyny ers 2008-2009 ac yn uwch na'r teulu a Chymru. Mae'r canlyniadau wedi bod y rhan amlaf yn yr 50% uchaf. Mae ysgrifennu ar i lawr ac yn is na'r teulu a Chymru. Mae canlyniadau lefel 5 wedi bod yn sylweddol is na'r teulu a Chymru ers 2006 ac wedi bod yn y 25% isaf trwy gydol yr amser.

O fewn Mathemateg (lefel 4) mae'r tueddiad ar i lawr yn gyffredinol. Mae tueddiadau Lefel 5 wedi bod yn sylweddol is na'r teulu a Chymru hyd at 2010-2011 ble gwelwyd cynnydd sylweddol. Mae canlyniadau gwyddoniaeth wedi bod yn weddol wastad hyd at 2008-2009 ble gwelwyd cynnydd ar i fyny ers hyn. Mae Lefel 5 yr ysgol wedi bod yn sylweddol is na'r teulu a Chymru ers 2006 ac wedi bod yn y 25% isaf yn gyson.

Nid oes gwahaniaethau amlwg o fewn y data ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn gysylltiedig â grwpiau penodol o ddisgyblion megis disgyblion â hawl i ginio am ddim a disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r disgyblion hyn, ar y cyfan, yn llwyddo i gyrraedd lefelau sy'n unol â'u gallu.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Daeth 35 o ymatebion i law. Mae pob un yn datgan fod eu plant yn hoffi'r ysgol. Maent o'r farn fod yr ysgol yn helpu'r disgyblion i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. Credant fod y disgyblion yn ymddwyn yn dda ac y cant eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae bron pob rhiant yn fodlon â'r cynnydd a wna eu plant ac o'r farn fod yr ysgol wedi bod o gymorth iddynt ymgartrefu ar eu mynediad. Mae bron pob rhiant hefyd o'r farn fod y disgyblion yn ddiogel yn yr ysgol, bod yr addysgu yn dda, bod y staff yn trin y disgyblion yn deg ac yn disgwyl iddynt wneud eu gorau.

Mae'r rhan fwyaf yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol ac yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. Maent o'r farn fod yna amrywiaeth dda o weithgareddau ar gael a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae llawer yn datgan eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd y disgyblion ac yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn neu nodi problem. Dywedant hefyd fod yr ysgol yn paratoi'r disgyblion yn dda ar gyfer symud ysgol, yn cynnig cymorth ychwanegol pan yn briodol a bod y gwaith cartref a roddir yn adeiladu'n dda ar yr hyn a ddysgir yn yr ysgol.

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd 66 o ddysgwyr cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Mae'r dysgwyr oll yn datgan eu bod yn hapus, ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae bron bob un yn dweud fod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a bod athrawon ac oedolion eraill o fewn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Maent hefyd yn gwybod beth i'w wneud a phwy i siarad â hwy os byddant yn poeni neu yn gweld y gwaith yn anodd. Mae bron pob un o'r disgyblion hefyd o'r farn fod yna lawer o gyfleoedd iddynt ymarfer y corff yn rheolaidd a bod ganddynt ddigon o adnoddau ar gyfer gwneud eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o'r farn eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, bod y gwaith cartref o gymorth iddynt a bod yr ysgol yn delio yn dda ag unrhyw fwlio.

Nododd llawer o'r disgyblion fod ymddygiad yn dda o fewn yr ysgol ac nad oes camymddwyn yn effeithio ar eu gallu i weithio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Glyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Michael Hayes | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Ann Fox | Arolygydd Cymheiriaid |
| Keri Morgan | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.